



## **Arweiniad i Arolygwyr Arolygu ar gyfer y dyfodol (2024 – 2030)**

**Sut rydym yn arolygu (y broses arolygu):  
partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned**



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**® Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
Gweledigaeth Estyn.....	1
Diben y llawlyfr arweiniad ‘Sut rydym yn arolygu’ .....	1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned .	1
Cefndir polisi.....	2
<b>Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr</b> .....	<b>3</b>
Cyflwyniad .....	3
Egwyddorion ein gwaith.....	4
Ein meddylfryd.....	4
Disgwyliadau o ran arolygwyr .....	5
Disgwyliadau o ran partneriaethau .....	5
Y Gymraeg .....	6
Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles .....	6
<b>Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd</b> .....	<b>7</b>
Ymagwedd at arolygu.....	7
Yr Ystafell Arolygu Rithwir .....	7
Y tîm arolygu .....	8
Cysylltu â'r bartneriaeth cyn arolygiad craidd .....	9
Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm .....	10
Trefniadau arolygu ar gyfer Addysg Oedolion Cymru.....	11
Trefniadau arolygu Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) .....	11
Yn ystod yr arolygiad.....	12
Ar ôl yr arolygiad .....	17
Sicrhau ansawdd arolygiadau .....	18
<b>Rhan 3: Trefniadau dilynol</b> .....	<b>19</b>
Ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad .....	19
Ymweliadau / gweithgarwch monitro .....	19
Tynnu o gategori gweithgarwch dilynol.....	20
<b>Atodiad: Arweiniad a phrotocolau ar gyfer arolygu o bell: arsylwadau o addysgu a dysgu, cyfarfodydd ar-lein a hybrid a chraffu ar waith dysgwyr...</b>	<b>21</b>

## Cyflwyniad

### Gweledigaeth Estyn

Gweledigaeth Estyn yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.

### Diben y llawlyfr arweiniad ‘Sut rydym yn arolygu’

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein hymagwedd at arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned o 2024. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol i bartneriaethau hefyd i ategu eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a methodolegau arolygu.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â [‘Beth rydym yn ei arolygu’](#) ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall partneriaethau ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio a'u helpu i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso a gwella eu hunain.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn cynnwys sbotolau ar yr arfer hon fel rhan o'r adroddiad am yr arolygiad. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig yn ymwneud â safonau, ansawdd addysg a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant. Cyflwynir arweiniad ar weithgarwch dilynol ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

### Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Ar ôl ei chychwyn<sup>1</sup>, mae adran 57 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)<sup>2</sup> (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a arolygwyd,
- y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg neu hyfforddiant, a
- ph'un a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r darparwr addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian

Mae'r Ddeddf hefyd yn amlinellu hawl mynediad Estyn i adeiladau a gwybodaeth i'w alluogi i gyflawni swyddogaethau o'r fath. Mae hefyd yn datgan ei bod yn drosedd

<sup>1</sup> Hyd nes bydd y darpariaethau ansawdd yn y Ddeddf hon yn cychwyn, y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu fydd adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

rhwystro PAEF yn fwriadol (ac arolygwyr a gyflogir gan PAEF) wrth gyflawni swyddogaethau yn gysylltiedig ag arolygu.

## Cefndir polisi

Er na chaiff ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisiau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015  
<https://www.gov.wales/well-being-of-future-generations-walesU>
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 yn sylfaen ar gyfer llunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc <http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx>
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018  
<https://www.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>

Y dyheadau a amlinellwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Hydref 2022 ar gyfer 'Cymru fel cenedl ail gyfleoedd – lle nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu':  
<https://www.llyw.cymru/cenedl-o-ail-gyfle-lle-nad-yw-byth-yn-rhy-hwyr-i-ddysgu>

Blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys:

- Cenhadaeth Ein Cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb  
<https://www.gov.wales/our-national-mission-high-standards-and-aspirations-all-html>
- Cymru'n Arloesi: Creu Cymru gryfach, decach, a gwyrddach:  
<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/wales-innovates-creating-a-stronger-fairer-greener-wales.pdf>
- Y Warrant i Bobl Ifanc: <https://www.llyw.cymru/y-warrant-i-bobl-ifanc-html>
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol>
- Cynllun Gweithredu LHDTTC+ <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdctc-cymru>
- Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050 <https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-rhaglen-waith-2021-i-2026-html>

## Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr

### Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn berthnasol ar draws ehangder ymgysylltiad Estyn â darparwyr. Rydym yn disgwyl i'r holl arolygwyr, gan gynnwys y rhai sydd dan contract i Estyn a'r rhai sy'n gweithio fel arolygwyr cymheiriaid, lynu at yr egwyddorion hyn.

### Cyd-destun

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â'r arolygiad craidd o bob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned a gynhelir yn ystod y cylch arolygu<sup>3</sup>. Yn ychwanegol, mae Estyn hefyd yn arolygu agweddau ar addysg a hyfforddiant ôl-16 yn rheolaidd trwy ymweliadau blynyddol â darparwyr, yn ogystal ag adolygiadau thematig sydd wedi'u seilio ar themâu penodol o ddiddordeb cenedlaethol.

Mae pob arolygiad craidd yn ymgorffori'r dystiolaeth a gasglwyd am y bartneriaeth trwy ymweliadau cyswllt blynyddol ac adolygiadau thematig, i lywio gwaith y tîm arolygu ac ychwanegu at y sail dystiolaeth gyffredinol a ddefnyddir yn sylfaen i'r adroddiad arolygu cyhoeddedig ar gyfer y bartneriaeth.

**Ymweliadau cyswllt dysgu oedolion yn y gymuned.** Defnyddir ymweliad neu ymgysylltiad blynyddol gan arolygydd cyswllt â phob partneriaeth i gasglu tystiolaeth a gwerthuso agweddau ar waith y bartneriaeth yn barhaus. Mae un neu ddau o arolygwyr yn cyfarfod ag arweinwyr, wyneb yn wyneb neu ar-lein, i drafod materion blaenoriaeth yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant, yn ogystal â chynnydd ar agweddau penodol ar waith y bartneriaeth. Mae pob ymweliad cyswllt blynyddol yn arwain at adborth llafar a llythyr ysgrifenedig cryno.

Yn ogystal â bwydo i mewn i arolygiad craidd, defnyddir canfyddiadau ymweliadau cyswllt ac adolygiadau thematig i lywio adroddiadau ar lefel genedlaethol, fel adroddiadau mewnwelediadau sector ac adroddiadau thematig, yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd.

**Adroddiadau thematig.** Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru<sup>4</sup> yn gofyn i Estyn lunio adroddiadau cenedlaethol ar ystod o themâu. Bydd Estyn yn nodweddiadol yn ymweld â sampl o bartneriaethau neu'n cynnal arolwg o bob partneriaeth fel rhan o'r gwaith hwn. Mae'r ymweliadau'n arwain at adborth llafar i'r darparwr ac adroddiadau cenedlaethol sy'n cynnwys crynodebau o arfer effeithiol partneriaethau unigol ar ffurf sbotoleuadau ac astudiaethau achos, lle bo'n berthnasol.

Efallai y byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau arolygu thematig o agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant, er enghraifft adolygiadau meysydd dysgu pynciau, lle mae adnoddau'n caniatáu.

<sup>3</sup> O 2024 ymlaen, bydd y cylch seibiant arolygu yn dychwelyd i chwe blynedd; fel yr amlinellir yn y rheoliadau Arolygu addysg a hyfforddiant (Cymru), wedi iddynt ddechrau.

<sup>4</sup> A Medr o 2025 ymlaen.

## Egwyddorion ein gwaith

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Maent:

- yn defnyddio ymagwedd yn canolbwyntio ar y dysgwr at unrhyw weithgarwch ac ymgysylltu
- yn canolbwyntio ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu
- yn canolbwyntio ar y darparwr penodol ym mhob gweithgaredd, ac yn addasu ein hymagweddau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau ac ymagweddau teilwredig i werthuso ehangder gwaith y darparwr yn drylwyr ac yn deg
- yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol sy'n gwneud y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff

Yn ystod arolygiadau craidd, rydym yn disgwyl i arolygwyr ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad arolygu 'beth' a 'sut', ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella yn unig.

Yn ychwanegol, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod ein gweithgarwch a'n hymgysylltu yn ymatebol i anghenion pob un o'r dysgwyr
- yn sicrhau bod ein gwerthusiadau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cadw at isafswm unrhyw ofynion ar gyfer dogfennau a pharatoadau gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg i'n holl weithgarwch

Mewn arolygiadau craidd yn arbennig, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn rhoi ystyriaeth addas i'r blaenoriaethau gwella a ddewiswyd gan y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu

## Ein meddylfryd

Mae ymagwedd Estyn at weithgarwch arolygu ac ymgysylltu fel a ganlyn:

**Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn ac yn gyson yn ein gwaith. Rydym yn pwysu a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i gynnig barn onest, gredadwy a chywir o gryfderau a meysydd i'w gwella'r bartneriaeth.

**Cefnogol** – rydym yn gweithio i lywio partneriaethau i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i ddysgwyr. Rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Mae ein

hymagwedd yn gyfeillgar ond yn broffesiynol bob amser. Rydym yn cefnogi diwygiadau addysg. Rydym yn gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd ystyrllon â phartneriaethau a sefydliadau lleol a rhanbarthol.

**Myfyriol** – rydym yn eangfrydig. Rydym yn gwrandao ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod ag aelodau eraill o'r tîm.

**Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob partneriaeth unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hybu ymddiriedaeth a pharch.

### Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau a'n cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o god ymddygiad Estyn.

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phobl ifanc ac oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y bartneriaeth yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a thrylwyr
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiuedd heb ofn na ffafriaeth
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'r gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo'r holl ddysgwyr i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y maent yn derbyn hysbysiad eu bod yn rhan o dîm arolygu'r bartneriaeth.

### Disgwyliadau o ran partneriaethau

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol a buddiol, mae'n bwysig fod



arolygwyr a phartneriaethau yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i bartneriaethau, gan gynnwys aelodau o'r corff llywodraethol (lle bo'n berthnasol):

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- darparu tystiolaeth sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau, yn ôl yr angen
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am y bartneriaeth
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- tynnu sylw'r arolygydd cofnodol at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai neu'r uwch reolwr
- gweithio gydag arolygwyr i leihau tarfu a straen trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- peidio â gwneud recordiadau, tynnu lluniau na gwneud fideos yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys gwerthusiadau drafft a ddatblygwyd yn ystod yr arolygiad

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng neu offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad am yr arolygiad, dylai partneriaethau adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y bartneriaeth yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltu, er enghraifft cyn eu harolygiad neu'u hymweliad ar y safle.

## Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltu, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n [Polisi Iaith Gymraeg](#), sydd ar gael ar ein gwefan.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl gwirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y bartneriaeth.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â pherson ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol '[Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu](#)', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylent roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol (ACof). Wedyn, dylai'r ACof gysylltu ag un o swyddogion

arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r ACof am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles dysgwyr. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i'r ACof p'un a ddylid rhannu'r pryder â'r bartneriaeth ai peidio.

Lle mae'r risgiau hyn yn peri pryder difrifol yn ystod gweithgarwch neu ymweliadau arolygu craidd, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Byddwn yn anfon llythyr lles at y bartneriaeth yn gofyn iddi amlinellu sut bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg, a byddem yn rhoi gwybod i Medr a Llywodraeth Cymru am hyn hefyd.

Os bydd arolygydd yn nodi pryder ynghylch diogelwch ar y safle, dylai roi gwybod i'r ACof. Os yw'r ACof yn ystyried y gellir mynd i'r afael â'r pryder yn gyflym, dylai roi gwybod i'r bartneriaeth y bydd disgwyl iddi ddarparu tystiolaeth fod y pryder wedi cael ei ddatrys o fewn wythnos.

Os yw'r pryder yn fwy difrifol ac na ellir mynd i'r afael ag ef yn gyflym, dylai'r ACof roi gwybod i'r ACof a fydd yn cyflwyno llythyr iechyd a diogelwch i'r bartneriaeth. Yr ACof fydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau yr eir i'r afael â'r mater(ion). Dylid rhoi gwybod i Medr a Llywodraeth Cymru am hyn, hefyd. Os nad eir i'r afael â mater llai arwyddocaol yn foddhaol o fewn wythnos, yna bydd y broses hon yn berthnasol hefyd.

## **Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd**

### **Ymagwedd at arolygu**

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw gwerthusiad y bartneriaeth o'i pherfformiad a'i blaenoriaethau ei hun, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn samplu tystiolaeth i brofi gwerthusiad y bartneriaeth ei hun o'i gwaith.

Mae'r cynnydd a wna dysgwyr o'u manau cychwyn a'r safonau y maent yn eu cyflawni yn fesurau allweddol o ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'u derbyn ac o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth. Bydd arolygu'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, eu hagweddau at ddysgu, ac effaith y ddarpariaeth ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

### **Yr Ystafell Arolygu Rithwir**

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) i reoli llawer o agweddau ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i bartneriaethau lanlwytho gwybodaeth cyn yr arolygiad, a lawrlwytho arweiniad gennym ni am y broses arolygu. Hefyd, yn yr YAR, gall partneriaethau fynd at yr holiaduron ôl-arolygiad (HOA).

Rydym yn sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion hacio ar yr YAR. Mae'r profion hyn yn gwerthuso diogelwch systemau. Rydym yn nodi ac yn cymryd unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl

ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sydd wedi eu cofnodi ac yn cael eu cynnal yn ddiogel o fewn cyfeiriadur gweithredol. Hefyd, mae gan y system nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu diogelu, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

## Y tîm arolygu

Mae gwahanol rolau o fewn y tîm arolygu.

Aelod o'r tîm	Esboniad	Rôl
Arolygydd cofnodol (ACof), gellir cyfeirio ato hefyd fel yr arolygydd arweiniol	Bydd yr ACof ar gyfer arolygiad yn un o'r canlynol: AEF (Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – penodir AEF gan y goron. Maent yn weision sifil a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn. AY (Arolygydd Ychwanegol) – mae Arolygwyr Ychwanegol fel arfer yn ymuno ag Estyn dros dro, er enghraifft ar secondiad o ddarparwyr.	Mae'r ACof yn arwain ac yn rheoli'r tîm arolygu. Mae'n cysylltu â'r bartneriaeth a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith ei dîm. Yr ACof yw'r pwynt cyfeirio cyntaf i bawb yn ystod y rhan ar y safle o'r broses arolygu.
Arolygwyr Tîm (AT)	Pennir nifer yr arolygwyr tîm yn ôl maint y bartneriaeth, yn ogystal â ffactorau logistaidd eraill fel dosbarthiad daearyddol ei lleoliadau dysgu. Gallai Arolygwyr Tîm fod yn AEF neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi cael eu hyfforddi gan Estyn.	Gallai Arolygwyr Tîm gymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiad y tîm o wahanol agweddau ar yr arolygiad. Mae'r ACof yn cyfeirio ac yn rheoli gwaith yr Arolygwyr Tîm.
Arolygydd Cymheiriaid (AC)	Mae Arolygydd Cymheiriaid yn arweinydd neu'n rheolwr mewn swydd, neu'n ymarferwr profiadol o bartneriaeth arall sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad Estyn ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid. Mae Arolygydd Cymheiriaid yn aelod o'r tîm ym mhob tîm arolygu. Mewn partneriaethau mwy, bydd mwy nag un AC yn y tîm.	Mae'r Arolygwyr Cymheiriaid yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar y gweithgarwch arolygu ar y safle ac yn cyfrannu at werthusiadau'r tîm. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r ACof yn cyfeirio ac yn rheoli gwaith yr Arolygydd Cymheiriaid.
Cydlynnydd Arolygu (CydAr)	Mae'r Cydlynnydd Arolygu yn aelod o staff Gwasanaethau Canolog Estyn sy'n cydlynu elfennau gweinyddol yr arolygiad, yn cynnwys trefnu'r YAR a gwneud y cyswllt cychwynnol â'r darparwr i'w hysbysu am yr arolygiad.	Mae rôl y CydAr yn rôl bwysig yn y cefndir, yn cydlynu elfennau gweinyddol a logistaidd yr arolygiad. Nid yw'n mynychu'r arolygiad ar y safle ei hun ac nid yw'n cyfrannu'n uniongyrchol at y gwerthusiad o'r darparwr.

Enwebai (o'r bartneriaeth sy'n destun yr arolygiad)	Byddwn yn gwahodd partneriaethau i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r 'enwebai', i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae bron pob un o'r partneriaethau yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofyniad. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y partneriaethau a'r tîm arolygu, ond does dim angen iddo fod yn arweinydd y bartneriaeth.	Gall partneriaethau droi at yr arweiniad ar gyfer enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y Cydlynnydd Arolygu (CydAr) ac ar gael trwy'r YAR.
---	---	--

Efallai y byddwn yn gwahodd arolygydd cymheiriaid / adolygydd rhyngwladol o un o'r arolygiaethau addysg yn y Deyrnas Unedig, Eire neu Ewrop hefyd. Bydd yn gallu dod â safbwynt meincnodi rhyngwladol i'r arolygiad, hwyluso rhannu arfer effeithiol a galluogi rhwydweithio gwell rhwng partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru â'u cymheiriaid rhyngwladol.

### **Cysylltu â'r bartneriaeth cyn yr arolygiad craidd**

Bydd y bartneriaeth yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am yr arolygiad.

Ar ôl hyn, bydd y Cydlynwyr Arolygu yn cysylltu â'r bartneriaeth dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y Cydlynnydd Arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys llenwi ffurflen hunanwerthuso diogelu gan y bartneriaeth, a gwneud y trefniadau ar gyfer ei derbyn ar ffurf electronig trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn frifffio gyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- yn canfod a yw'r bartneriaeth yn dymuno cael enwebai ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad gyda'r enwebai i ddarparu briff ar iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad i'r bartneriaeth amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella a'i chyfnod datblygu presennol
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r holiaduron cyn-arolygiad ar-lein ar gyfer dysgwyr a staff
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gyda sefydliadau partneriaeth
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, yn cynnwys samplau o waith dysgwyr
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel ystafell(oedd) sylfaen ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad (HOA)
- yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth, drwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol, am drefniadau allweddol yr arolygiad

Bydd y Cydlynnydd Arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y bartneriaeth drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y bartneriaeth
- cynlluniau datblygu ansawdd ac adroddiadau hunanwerthuso diweddaraf y bartneriaeth
- nifer y dysgwyr, yn cynnwys y rhai â phartneriaid, eu dull astudio, a'u lleoliad
- manylion am amserlenni'r bartneriaeth ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- trefnu dyddiad (fel y cytunwyd gyda'r ACof) ar gyfer y cyfarfod cynllunio cychwynnol

Os bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, efallai bydd partneriaethau yn dymuno rhannu samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol gydag arolygwyr, os ydynt ar gael. Os na all partneriaethau rannu gwaith blaenorol dysgwyr, bydd arolygwyr yn ystyried y wybodaeth hon wrth drafod gwaith a chynnydd gyda staff a dysgwyr.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i bartneriaethau am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gael mynediad at holiaduron ar-lein ar gyfer dysgwyr a staff. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygiad yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn cynorthwyo arolygwyr i ffurfio'u gwerthusiadau o waith y darparwr.

Bydd y tîm hefyd yn ystyried yr arolwg diweddaraf o amgyffrediadau dysgwyr a gynhaliwyd gan y bartneriaeth.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweled â sampl o ddysgwyr, staff addysgu ac asesu, a staff cymorth dysgu, fel rhan o'u proses casglu tystiolaeth.

### **Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm**

Gan ystyried blaenoriaethau gwella a nodwyd ac adroddiadau hunanwerthuso'r bartneriaeth, ac unrhyw wybodaeth a ddelir gan Estyn eisoes, fel canfyddiadau ymweliadau cyswllt blynyddol neu adolygiadau thematig, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn trefnu gyda'r enwebai ar gyfer cynnal un cyfarfod cynllunio neu fwy rhwng hysbysu am yr arolygiad a dechrau'r arolygiad. Bydd y rhain fel arfer yn cael eu cynnal ar-lein neu dros y ffôn. Diben y cyfarfodydd yw cadarnhau trefniadau'r arolygiad a helpu cynnal yr arolygiad ei hun mor esmwyth ag y bo modd.

Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn amrywio'n sylweddol o ran eu strwythur a'u trefniadaeth. Yn nodweddiadol, maent yn cynnwys o leiaf un awdurdod lleol ac o leiaf un coleg addysg bellach. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau hefyd yn cynnwys darpariaeth gan Addysg Oedolion Cymru. Yn aml, cynigir darpariaeth hefyd gan ddarparwyr trydydd parti, sefydliadau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol neu elusenol.

Yn y cyfarfodydd cynllunio, bydd yr arolygydd cofnodol yn egluro cwmpas darpariaeth y bartneriaeth, yn cynnwys yr holl ddarpariaeth a ariennir gan LIC, darpariaeth a gynigir gyda choleg addysg bellach neu bartneriaid y trydydd sector, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) a gynigir gan unrhyw un o'r partneriaid, darpariaeth hamdden, lles ac adfer costau, ac unrhyw ddarpariaeth arall

a allai fod yn berthnasol i'r arolygiad. Bydd arolygiadau'n canolbwyntio ar ddarpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Gallent hefyd ystyried agweddau ar ddarpariaeth y bartneriaeth sy'n cael ei hariannu neu'i hariannu'n rhannol gan ddysgwyr eu hunain.

### **Trefniadau arolygu ar gyfer Addysg Oedolion Cymru**

Mewn llawer o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru, mae Addysg Oedolion Cymru yn bartner cyflwyno neu'n bartner strategol. Oherwydd eu cyfraniad a'u cyflwyno mewn partneriaethau ledled Cymru, mae'n bosibl y bydd staff addysgu a rheolwyr Addysg Oedolion Cymru yn cymryd rhan mewn llawer o arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae hyn yn creu her: sut i sicrhau bod darpariaeth lawn pob partneriaeth (yn cynnwys darpariaeth gan Addysg Oedolion Cymru) yn cael ei harolygu'n briodol heb roi baich arolygu anghymesur ar yr un darparwr hwn.

Ar draws y cylch arolygu, bydd Estyn yn cynnal un arolygiad craidd o Addysg Oedolion Cymru fel darparwr dysgu oedolion yn y gymuned yn ei rinwedd ei hun, o dan y fframwaith arolygu llawn dysgu oedolion yn y gymuned, gan arwain at adroddiad arolygu llawn. Bydd yr arolygiad craidd hwn yn samplu gweithgareddau addysgu a dysgu, gan ystyried ystod darpariaeth Addysg Oedolion Cymru dros Gymru gyfan.

Mewn arolygiadau craidd o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned unigol lle mae Addysg Oedolion Cymru yn bartner cyflwyno, bydd arolygwyr cofnodol yn sicrhau bod gweithgarwch yn gysylltiedig ag Addysg Oedolion Cymru yn gymesur â'r bartneriaeth honno. Er enghraifft, wrth gynllunio arsylwadau addysgu a dysgu, bydd arolygwyr cofnodol yn sicrhau bod nifer y sesiynau Addysg Oedolion Cymru sy'n cael eu harsylwi yn gymesur â'r cyfraniad gan Addysg Oedolion Cymru i ddarpariaeth gyffredinol y bartneriaeth yn ystod cyfnod yr arolygiad.

Dros ddilyniant o arolygiadau o wahanol bartneriaethau, bydd Estyn yn gofalu i sicrhau nad yw tiwtoriaid unigol sy'n gweithio i Addysg Oedolion Cymru yn cael eu samplu dro ar ôl tro mewn arsylwadau sesiynau.

Bydd Estyn yn cynnal deialog agored gydag Addysg Oedolion Cymru i fonitro effaith gweithgarwch arolygu ac yn sicrhau bod gweithgarwch arolygu cyffredinol sy'n cynnwys Addysg Oedolion Cymru yn gymesur.

### **Trefniadau arolygu Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE)**

Mae'r ddarpariaeth Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn nodweddiadol yn rhan o ddarpariaeth partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Rhwng partneriaethau, mae amrywiad sylweddol mewn patrymau cyflwyno, ond yn nodweddiadol, cynigir rhyw elfen o'r ddarpariaeth SSIE gan bartner yr awdurdod lleol, a rhywfaint gan y coleg addysg bellach. Mewn rhai partneriaethau, mae Addysg Oedolion Cymru yn cyflwyno darpariaeth SSIE. Yn y fframwaith arolygu hwn, bydd darpariaeth SSIE a ariennir gan Lywodraeth Cymru neu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fel rhan o arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned, yn annibynnol ar b'un a chaiff ei chyflwyno trwy gyrsiau a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y coleg addysg bellach yn y bartneriaeth, Addysg Oedolion Cymru, neu ddarparwr arall.

Bwriad arolygu darpariaeth SSIE o dan un fframwaith yw i'n galluogi i ateb y cwestiwn, 'O fewn unrhyw faes partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned, pa mor effeithiol yw holl becyn y ddarpariaeth SSIE?' Bydd yn ein galluogi i werthuso darpariaeth ar draws y sbectrwm cyflwyno SSIE, o weithgarwch math ymgysylltu nad yw'n ffurfiol, dysgu yn y gymuned yn rhan-amser (achrededig neu anachrededig) i ddysgu achrededig rhan-amser neu amser llawn, p'un a yw hynny yn y coleg, yr awdurdod lleol neu mewn darparwr y trydydd sector.

Yn eu cyfarfodydd cynllunio, bydd yr arolygydd cofnodol, mewn trafodaeth â'r enwebai, yn nodi ystod y ddarpariaeth SSIE a gynigir gan y bartneriaeth ac yn ardal y bartneriaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio ar gyfer ystod o weithgareddau arolygu sy'n ymgorffori SSIE yn annibynnol ar y darparwr sy'n ei chyflwyno. Yn benodol, mae gennym ni ddiddordeb mewn sut, mewn ardal leol, y mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn cynllunio ar y cyd i sicrhau bod amrywiaeth o ddarpariaeth addas ar bob lefel, a bod llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr, beth bynnag yw eu man cychwyn, yn glir.

Trwy arolygu'r ddarpariaeth SSIE gyfan, yn cynnwys samplu unrhyw ddarpariaeth coleg addysg bellach amser llawn, bydd yr adroddiad arolygiad ar ddysgu oedolion yn y gymuned yn gallu amlygu trwy gameos unrhyw gryfderau nodedig ar draws y ddarpariaeth SSIE. Os oes agweddau ar y ddarpariaeth SSIE sydd angen eu gwella, bydd y rhain yn cael eu crybwyll yn yr adroddiad, a bydd argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu cyfeirio at arweinwyr y ddarpariaeth honno.

## **Yn ystod yr arolygiad**

### **Y cyfarfod tîm cychwynnol**

Bydd y tîm fel arfer yn cyrraedd yr ystafell sylfaen tua hanner dydd ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Bydd cyfarfod tîm cychwynnol, sy'n cynnwys enwebai'r bartneriaeth, fel arfer yn cael ei gynnal tua 1.00pm pan fydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau gyda'r tîm y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ac arsylwadau sesiynau.

Dylai'r bartneriaeth roi briff ar iechyd a diogelwch i roi gwybod i'r tîm am unrhyw faterion perthnasol (e.e. lleoliad allanfeydd tân, driliau tân sydd wedi'u cynllunio, materion yn ymwneud â ffyrdd neu drafndiaeth yn lleol, ac ati). Bydd y bartneriaeth hefyd yn cael gwahoddiad i gyflwyno datganiad sefyllfa byr ar ei blaenoriaethau strategol a'i chyfnod datblygu presennol.

Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod gydag uwch arweinwyr y blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd gan y bartneriaeth a'r cynnydd y mae'n ei wneud yn ei gwaith gwella.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r bartneriaeth yn ystod y cyfarfodydd cynllunio cyn yr arolygiad.

### **Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu**

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant ymdrin â'r gofynion adrodd yn y tri maes arolygu. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r gweithgarwch arolygu yn hyblyg, i ymateb i amgylchiadau teilwredig ac unigol y bartneriaeth. Mae hyn yn golygu na fydd y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio mewn un bartneriaeth efallai'n adlewyrchu'r rhai sydd wedi'u cynllunio mewn un arall. Yn ychwanegol, mae

arolygwyr yn adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y bydd y tîm bob amser yn ystyried popeth yn y meysydd arolygu, ond efallai na fydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys pob agwedd ar y fframwaith. Mae'r prif fathau o dystiolaeth fel a ganlyn:

- tystiolaeth ddogfennol neu electronig, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd dysgwyr
- arsylwi'r dysgu a'r addysgu, yn cynnwys y dystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- samplau o waith dysgwyr
- ymatebion i arolygon gan ddysgwyr a staff
- trafodaethau â dysgwyr, arweinwyr, rheolwyr, cynrychiolwyr o bartneriaid, aelodau etholedig neu swyddogion awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o safonau, medrau, gwaith ymarferol ac ysgrifenedig dysgwyr, lle bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i ategu eu gwerthusiadau. Gallai arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith dysgwyr, os oes angen, i gefnogi eu gwerthusiadau o agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gynnydd dysgwyr ac ansawdd darpariaeth y bartneriaeth. Gallai hyn gynnwys arsylwadau o sesiynau, gan gynnwys samplu gwersi ar-lein a theithiau dysgu, lle mae arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym trwy nifer o sesiynau addysgu yn edrych ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth.

Mae llais dysgwyr yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar gyfer arolygwyr. Bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr mewn sesiynau dysgu, mewn grwpiau ffocws neu leoliadau anffurfiol. Bydd sgyrsiau â dysgwyr yn rhoi cyfle i archwilio amgyffrediaidau dysgwyr o'u cynnydd a'u profiadau dysgu. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i gael amcan o ba mor dda y mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo dysgwyr ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw.

Dylai partneriaethau drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a'r cynnydd a gyflawnwyd gan ddysgwyr, yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau cychwynnol a diagnostig o fedrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol, neu asesiadau o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr, llunio barn am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, o gymharu â'u manau cychwyn, a'r ffordd y mae tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y bartneriaeth a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

### **Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau'r arolygiad.

### **Deialog broffesiynol**

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn cael deialog broffesiynol ag ymarferwyr. Gallai'r ddeialog hon gynnwys cyfarfod â thiwtoriaid unigol, yn aml yn eu hystafelloedd dosbarth, i drafod eu cynllunio a'u hasesiadau o waith dysgwyr. Efallai bydd arolygwyr yn penderfynu cyfarfod ag arweinwyr, naill ai'n unigol neu fel grŵp, i



ddeall effaith arweinyddiaeth y bartneriaeth ar ysgogi gwelliannau i ddeilliannau dysgwyr.

Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr y gellir ei thiongli â ffynonellau tystiolaeth eraill. Bydd y deialog yn darparu canfyddiadau interim, sy'n dod i'r amlwg, ar agweddau ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn, ar ôl myfyrio, er enghraifft ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â dysgwyr neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl sesiwn arsylwi, bydd arolygwyr yn cynnig deialog broffesiynol fer gyda'r aelod o staff sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth bob amser fod ar y dysgwyr, y cynnydd a wnânt yn ystod y sesiwn a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu yn gysylltiedig â'r gweithgarwch penodol a welwyd.

Oherwydd natur teithiau dysgu, a gwasgariad y gweithgarwch ar draws nifer o weithgareddau o fewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd arolygwyr mewn sefyllfa i gynnig deialog broffesiynol i diwtoriaid unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu. Ble bynnag y bo modd, dylai arolygwyr gyflwyno'u hunain yn fras i'r aelod o staff ac esbonio'u bod yn cynnal gweithgarwch taith ddysgu yn hytrach na sesiwn arsylwi lawn, a bod hyn yn golygu na fyddant mewn sefyllfa i gynnig deialog broffesiynol y tro hwn.

### **Cyfarfodydd tîm**

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, dibynadwy, dilys a chorfforaethol am safonau ac ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi dilysrwydd ym mhrosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- adolygu ymweliadau â dysgwyr
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Tuag at ddiwedd yr arolygiad, bydd y tîm yn cynnal cyfarfod i adolygu'r gwerthusiadau drafft. Diben y cyfarfod hwn yw safoni canfyddiadau a llunio barn ar y cyd am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar gyfer pob maes arolygu yn y bartneriaeth. Bydd yr enwebai'n cael cyfle llawn i gymryd rhan yn y cyfarfod hwn.

Bydd y tîm hefyd yn nodi unrhyw argymhellion i helpu canolbwyntio ar welliant y bartneriaeth, sbotoleuadau arfer effeithiol neu ddiddorol i'w hamlygu yn yr adroddiad, ac a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ffurfiol gan Estyn.

### **Yn achosi pryder**

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu'n ystyried p'un a yw'r darparwr yn achosi pryder a bod angen gweithgarwch dilynol arno. Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant sy'n annigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn datgan: 'mae

ansawdd addysg drydyddol, neu ansawdd cwrs addysg drydyddol, yn annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rheini sy'n cael yr addysg neu sy'n ymgymryd â'r cwrs.<sup>5</sup>

Dyma'r rhesymau posibl dros nodi bod darparwr yn achosi pryder:

- mae cyfran uchel o ddysgwyr yn tangyflawni dros gyfnod neu ddirywiad sylweddol mewn cyflawniad dros gyfnod
- os nad yw'r darparwr yn rhoi safon dderbyniol o addysg a hyfforddiant i'w ddysgwyr
- os nad yw'r darparwr yn perfformio cystal o gryn dipyn na'r hyn y gellid yn yr holl amgylchiadau ddisgwyl iddo berfformio yn rhesymol
- os nad yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r darparwr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol
- pryderon difrifol ynghylch diogelu
- nid yw'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- unrhyw bryder arall sy'n achosi risg sylweddol i les neu gyflawniad dysgwyr

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwêl, a gallu cadarnhau ei farnau ar sail tystiolaeth gadarn. Os yw'r dystiolaeth yn pwyntio at y casgliad fod y darparwr yn achosi pryder, rhaid i'r arolygwyr wneud y penderfyniad hwnnw.

Dylai ein harolygwyr gofio bob amser bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ôl-16 ar y deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Wrth farnu'r graddau y mae gan uwch arweinwyr y gallu i ysgogi gwelliannau, bydd angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r arweinwyr hyn yn gwybod ac yn deall y cryfderau a'r gwendidau yn eu sefydliad. Dylai arolygwyr hefyd sefydlu a yw uwch arweinwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella trwy ymdeimlad o ddiben a chyfeiriad y maent yn ei ddarparu, a thrwy benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon. Dylai trafodaethau ag uwch arweinwyr ddarparu tystiolaeth o sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau cywir. Pan fo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried hefyd pa mor wybodus yw llywodraethwyr neu aelodau'r bwrdd am feysydd i'w gwella a pha mor dda y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol.

O dan yr holl amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn gwerthuso gwaith y darparwr yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar y pryd. Ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto neu benodi staff yn ddiweddar, fel pennaeth, Prif Weithredwr neu uwch arweinydd newydd, neu fod y darparwr yn datgan y gall fynd i'r afael â meysydd pryder yn gyflym. Mae hyn oherwydd, yn yr achosion hyn, ni fydd modd gweld effaith y gwelliannau eto. Rhaid i arolygwyr farnu perfformiad a deilliannau'r darparwr ar hyn o bryd yn hytrach na bwriadau a chynlluniau damcaniaethol neu dda, a rhagolwg dyheadol.

Dylai trafodaethau'r tîm ystyried unrhyw ffactorau lliniarol i sicrhau dilysrwydd a dibynadwydd y gwerthusiadau cyn penderfynu bod darparwr yn achosi pryder.

---

<sup>5</sup> Adran 52 (3) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Os bernir bod y darparwr yn peri pryder sylweddol, dylai'r arolygydd cofnodol gymryd y camau canlynol:

- rhoi gwybod i'r Cydlynnydd Arolygu priodol
- rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr Strategol am y farn (a fydd yn rhoi gwybod i PAEF, yn ei dro)

Os bernir bod y darparwr yn achosi pryder, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth y pennaeth / Prif Weithredwr ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm wedi dod i'r casgliad hwn a llenwi'r adran berthnasol ar y ffurflen adrodd.

Ar ôl safoni a dilysu'r deilliannau arolygu cytûn o fewn Estyn, byddwn yn ysgrifennu llythyr cadarnhad at y darparwr yn esbonio y bydd arolygwyr yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y darparwr yn mynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad gan ddefnyddio'r trefniadau a nodir isod yn yr arweiniad hwn.

### **Adborth ffurfiol**

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr y bartneriaeth. Bydd cynrychiolydd o Medr a Llywodraeth Cymru yn derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod hwn. Gellir gwahodd cynrychiolwyr y bartneriaeth i fynychu'r cyfarfod, lle bo'n briodol. Bydd yr adborth yn canolbwyntio ar y prif werthusiadau ar gyfer pob un o'r tri maes arolygu a'r rhesymau am y rhain.

Mae'r cyfarfod adborth yn cynnig cyfle i arweinwyr glywed a myfyrio ar ganfyddiadau'r tîm. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys yr argymhellion. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio wrth y bartneriaeth y gellir egluro materion, ac y gellir cywiro materion ffeithiol. Fodd bynnag, diben y cyfarfod yw bod y darparwr yn deall yn hytrach na thrafod canfyddiadau'r tîm arolygu.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu'n ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y bartneriaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried hefyd a oes unrhyw arfer effeithiol yn y bartneriaeth sy'n werth ei rhannu â phartneriaethau eraill. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynnwys cameo o'r arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu.

Mae'r holl werthusiadau sy'n cael eu hadrodd yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEF. Maent yn gyfrinachol i staff y bartneriaeth. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol, nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

### **Cwynion am y broses arolygu**

Os bydd unrhyw faterion yn ymwneud â'r broses arolygu neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r bartneriaeth, trwy'r enwebai, godi'r rhain yn uniongyrchol â'r arolygydd cofnodol, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r bartneriaeth aros tan ar ôl yr arolygiad; dylai godi unrhyw faterion tra bydd y tîm ar y safle. O bryd i'w gilydd, bydd materion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth ac, fel arfer, gellir

datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y bartneriaeth yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad yn ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ar ein gwefan.

Fodd bynnag, mae rhai pethau nad ydym yn mynd i'r afael â nhw trwy ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, er enghraifft cwynion, neu heriau, am werthusiadau neu benderfyniadau dilynol ar ôl arolygiad neu adolygiad gan Estyn. Mae hyn oherwydd bod y bartneriaeth yn cael cyfle cyn ac yn ystod arolygiad i ddarparu'r holl dystiolaeth sydd ei hangen i'r tîm arolygu lunio'i werthusiadau yn gywir ac yn deg.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, ac yn ddefnyddiol i'r bartneriaeth.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru).

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae partneriaethau wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar Fframwaith Arolygu Cyffredin a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

### Ynglŷn â'r bartneriaeth

#### Crynodeb

#### Argymhellion

#### Beth sy'n digwydd nesaf

#### Prif werthusiadau

MA1: Addysgu a dysgu

MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3: Arwain a gwella

#### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bydd y prif werthusiadau'n cynnwys testun naratif o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a sbotoleuadau ar arfer ddiddorol neu effeithiol. Ar ddiwedd pob testun am faes arolygu, bydd pwyntiau bwled o agweddau i'w hystyried ar gyfer eu gwella ymhellach.

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu gytunedig y sector.

## Gwirio cywirdeb ffeithiol

Bydd yr arolygiaeth yn rhoi drafft o'r adroddiad i'r bartneriaeth cyn ei gyhoeddi, er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan y bartneriaeth bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau.

Mae'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i bartneriaethau ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar wefan Estyn.

### Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddedhol, hyfforddi, briffio, cefnogi a lleoli arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd â'r enwebai a chadeirydd y bartneriaeth yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir ar brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd partneriaethau i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i bartneriaethau yn yr YAR. Dylai partneriaethau lenwi'r rhan gyntaf o'r HOA yn union ar ôl yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gall partneriaethau lenwi ail ran yr HOA ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto drwy system yr YAR.

Rydym yn cymhwyso proses sicrhau ansawdd drylwyr i bob un o'n harolygiadau. Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm yn y lle cyntaf. Ar ôl diwedd y gweithgarwch ar y safle, bydd AEF profiadol nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r arolygiad hyd yma yn sicrhau ansawdd yr adroddiad a sail y dystiolaeth. Creffir ar sail y dystiolaeth lawn a'i pharu i destun yr adroddiad, i sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd. Yn ychwanegol, mae'r broses sicrhau ansawdd yn ystyried priodoldeb lefel y gweithgarwch dilynol, a'r argymhellion sy'n deillio o'r arolygiad. Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd, gellir diwygio, dileu neu ychwanegu argymhellion.

Wedyn, cynhelir proses safoni arall. Bydd y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol priodol yn craffu ar sail y dystiolaeth a'r adroddiad. Pryd bynnag y bydd gweithgarwch dilynol o ganlyniad i arolygiad, bydd y Cyfarwyddwr Strategol, yn ogystal â Chyfarwyddwr Cynorthwyol, yn safoni'r adroddiad ochr yn ochr â sail y dystiolaeth, ar ran PAEF. Ar adegau prin iawn, gallai'r broses safoni hon arwain at newid i lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn ychwanegol, rydym yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle. Byddwn yn sicrhau ansawdd yr holl adroddiadau arolygu ysgrifenedig cyn eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein trefniadau llawn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru).

### **Rhan 3: Trefniadau dilynol**

Bydd un categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau ôl-16, sef: ‘yn achosi pryder’. Mae’r arweiniad isod yn amlinellu sut byddwn yn gweithio gyda darparwr lle nad yw agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy’n derbyn yr addysg.

#### **Ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad**

Tua thri mis ar ôl yr arolygiad, byddwn yn trefnu bod yr arolygydd cyswllt ôl-16 yn ymweld â’r darparwr, yn cyfarfod ag uwch arweinwyr a llywodraethwyr (lle bo’n berthnasol) ac unrhyw randdeiliaid allweddol eraill, lle bo’n berthnasol, fel Medr. Pan fo modd, byddwn hefyd yn cynnwys arolygydd cofnodol yr arolygiad. Diben hyn fyddai gwirio bod y darparwr wedi deall yn llawn y rhesymau dros argymhellion yr arolygiad, a gwirio bod y darparwr yn datblygu cynlluniau priodol i fynd i’r afael â diffygion. Byddwn yn anfon hysbysiad ffurfiol dair wythnos cyn yr ymweliad, ond ein nod fydd sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn i ni gyflwyno’r hysbysiad hwn.

Ar ôl yr ymweliad, bydd Estyn yn anfon llythyr at bennaeth / Prif Swyddog Gweithredol y darparwr. Bydd y llythyr hwn yn cadarnhau graddau’r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod yr ymweliad fod y darparwr yn deall y rhesymau pam mae agwedd neu agweddau’n achosi pryder, a bod cynlluniau addas yn cael eu datblygu i fynd i’r afael â diffygion. Bydd y llythyr hefyd yn cadarnhau sut mae’r darparwr yn bwriadu mynd i’r afael â’r pryder.

#### **Ymweliadau / gweithgarwch monitro**

Ar ôl ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad, byddwn yn datblygu amserlen o ymweliadau neu weithgarwch monitro gyda’r darparwr. Bydd safbwyntiau’r darparwr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu’r amserlen.

Bydd y gweithgareddau monitro hyn yn cael eu defnyddio i wirio pa mor dda y mae’r darparwr yn bwrw ymlaen â’i gynlluniau i fynd i’r afael â’r argymhelliad / argymhellion o’r arolygiad, a beth yw effaith ei weithredoedd. Bydd gweithgarwch monitro wedi’i deilwra i’r darparwr a gallai gynnwys gweithgaredd wrth y ddesg, cyfarfod ar-lein neu ymweliad â’r darparwr.

Byddwn yn cynnal y gweithgaredd monitro cyntaf tua naw mis ar ôl ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Bydd ymweliadau neu weithgarwch pellach, os oes eu hangen, yn cael eu trefnu chwe mis ar ôl yr ymweliad / gweithgarwch blaenorol. Byddwn yn hysbysu’r darparwr yn ffurfiol dair wythnos cyn ymweliad monitro, ond ein nod fydd sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn cyflwyno’r hysbysiad hwn.

Byddwn fel arfer yn cynnwys yr arolygydd cyswllt ym mhob gweithgaredd monitro, a byddwn fel arfer yn cynnwys arolygydd cofnodol yr arolygiad yn yr ymweliad / gweithgaredd monitro cyntaf, o leiaf. Bydd maint y tîm a chynllun y gweithgaredd neu’r ymweliad yn cael eu teilwra i gyd-destun penodol y darparwr a natur yr argymhellion. Bydd ymweliadau monitro yn nodweddiadol yn cael eu gwasgaru dros dridiau, yn dechrau ac yn gorffen amser cinio ar y diwrnod cyntaf a’r diwrnod olaf, ond yn y pen draw, byddwn yn gweithio gyda’r darparwr i gytuno ar amserlen addas

o weithgareddau. Bydd gweithgarwch monitro arall, fel cyfarfodydd ar-lein neu adolygiadau wrth y ddesg, yn cael eu cynnal dros gyfnod byrrach, sef deuddydd, yn nodweddiadol.

Bydd YAR yn cael ei chreu ar gyfer pob gweithgarwch monitro, a fydd yn galluogi'r darparwr i rannu ychydig o ddogfennau allweddol a gwybodaeth ategol sy'n berthnasol.

Yn ystod y gweithgarwch monitro, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a faint o gynnydd a wnaed yn gyffredinol. Os nad yw'r darparwr yn achosi pryder mwyach, yna bydd arolygwyr yn argymhell y dylid tynnu'r darparwr o'r categori gweithgarwch dilynol.

Ar ôl pob ymweliad neu weithgaredd monitro, byddwn yn anfon adroddiad byrrach at y darparwr o fewn pedair wythnos, gyda chopi i Tîm Ansawdd Ôl-16 Medr. Bydd yr adroddiad hwn yn cadarnhau graddau'r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod yr ymweliad fod gweithredoedd y darparwr ers yr arolygiad yn cael yr effaith ddymunol ar y meysydd i'w gwella. Yn yr adroddiad, gallai arolygwyr gynnwys argymhellion i'r darparwr gefnogi mwy o welliant yn ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r pryder. Os yw'r darparwr wedi gwneud cynnydd digonol, bydd yn cael ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

Os nad yw arolygwyr yn fodlon â'r cynnydd, byddwn yn trefnu amser ar gyfer ymweliad neu weithgarwch monitro pellach ymhen chwe mis. Os na fydd digon o gynnydd wedi'i wneud ar ôl dwy flynedd yn y categori gweithgarwch dilynol, byddwn yn anfon adroddiad at Medr yn esbonio'r rhesymau pam mae agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant y darparwr nad ydynt yn ddigonol o hyd i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg.

### **Tynnu o gatedori gweithgarwch dilynol**

Ar ôl unrhyw ymweliad monitro, gallai arolygwyr argymhell i PAEF nad yw'r darparwr yn achosi pryder mwyach ac y gellir ei dynnu o gatedori gweithgarwch dilynol. I fod yn y sefyllfa hon, byddai angen i arolygwyr fod yn sicr bod digon o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phob argymhelliad o'r arolygiad.

Os yw PAEF yn cytuno, yna bydd yr adroddiad ar gyfer yr ymweliad monitro yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd ar gyfer pob argymhelliad, a barn gyffredinol fod cynnydd digonol wedi'i wneud er mwyn gallu tynnu'r darparwr o gatedori gweithgarwch dilynol am nad yw'n achosi pryder mwyach.

Bydd llythyr byr sy'n esbonio nad yw'r darparwr yn achosi pryder mwyach yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

**Atodiad: Arweiniad a phrotocolau ar gyfer arolygu o bell: arsylwadau o addysgu a dysgu, cyfarfodydd ar-lein a hybrid a chraffu ar waith dysgwyr**

**Egwyddorion**

1. Bydd cyfran yr arsylwadau addysgu a dysgu ar-lein yn adlewyrchu cyfran y cyflwyno ar-lein, yn fras. Os yw 20% o addysgu a dysgu yn ddysgu ar-lein, yna bydd tua 20% o'r sesiynau a arsylwir dros gyfnod yr arolygiad yn addysgu a dysgu ar-lein.
2. Bydd arolygwyr yn ystyried effeithiolrwydd addysgegau ar-lein ar sail eu heffaith ar gynnydd a safonau dysgwyr.
3. Yn y cyfnod cyn yr arolygiad (ar hysbysu am yr arolygiad), bydd yr arolygydd cofnodol yn trefnu cyfarfod â'r darparwr i sefydlu mynediad at blatfform(au) ar-lein y darparwr.
4. Bydd y darparwr yn trefnu cyfrifon er mwyn i aelodau o'r tîm arolygu gael mynediad at blatfform ar-lein y darparwr a chael eu cynnwys mewn sesiynau ar-lein am gyfnod yr arolygiad .
5. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar drefniadau gyda'r darparwr am sut gallai arolygwyr gynllunio'u harsylwadau heb nodi'r rhain i staff ymlaen llaw. Mae hyn i helpu sicrhau uniondeb yr arolygiad a lleihau'r pwysau diangen ar staff y darparwr i'r eithaf.
6. Ar ôl arsylwi addysgu a dysgu ar-lein, bydd yr arolygydd yn cysylltu â'r aelod o staff i drefnu amser cyfleus i gael deialog broffesiynol fer.
7. Gall arolygwyr wyllo gwersi cydamserol neu anghydamserol a gynhelir yn ystod yr arolygiad, ond ni fyddant yn gwyllo sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw i werthuso ansawdd yr addysgu.
8. Dylai arsylwadau barhau am o leiaf 30 munud.
9. Bydd arolygwyr yn cysylltu â'r darparwr ynglŷn â sut orau i ymgysylltu â'r sesiwn ddysgu. Mewn llawer o achosion, efallai y byddai'n ddoeth i arolygwyr wneud dysgwyr ac athrawon / tiwtoriaid yn ymwybodol o'u presenoldeb yn y gofod dysgu trwy gyflwyno'u hunain, a diffodd eu camerâu a'u meicroffonau ar ôl hynny, er mwyn peidio â tharfu ar y dysgu. Mewn sefyllfaoedd eraill, gallai fod yn briodol rhyngweithio â dysgwyr, er enghraifft pan fyddant yn gweithio mewn ystafelloedd ymneilltuo.
10. Bydd grwpiau o ddysgwyr, a rhaglenni neu agweddau ar raglenni lle nad yw dysgu ar-lein efallai'n fodel cyflwyno priodol, er enghraifft dysgwyr â lefelau uchel o anghenion ychwanegol, yn cynnwys y rhai sy'n dilyn rhaglenni medrau byw yn annibynnol, neu'r rhai ag elfennau ymarferol na ellir eu cyflwyno ar-lein. Bydd arolygwyr yn ystyried y rhesymeg ar gyfer dewis cyflwyno ar-lein ar gyfer grwpiau o ddysgwyr.



### **Arweiniad ar gyfer cyfarfodydd ar-lein yn ystod arolygiad**

1. Fel arfer, bydd Estyn yn trefnu cyfarfodydd ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams. Mewn rhai achosion, efallai byddai'n well defnyddio platfform fideo gynadledda'r darparwr, er enghraifft wrth gyfarfod â dysgwyr neu staff ar-lein.
2. Bydd Estyn fel arfer yn creu gwahoddiadau i'r cyfarfod ac yn gofyn i'r darparwr anfon y gwahoddiad ymlaen, ond dim ond at y rhai a gytunwyd rhwng yr arolygydd cofnodol a'r enwebai. O ganlyniad, bydd yr arolygwyr yn gwybod pwy yn union fydd yn mynychu wedi i gyfranogwyr dderbyn gwahoddiad.
3. Dylai arolygwyr ddefnyddio cefnlen ar-lein swyddogol Estyn yn ystod galwadau.
4. Bydd arolygwyr yn cadeirio pob cyfarfod.
5. Dylai arolygwyr gyflwyno'u hunain a chaniatáu i gyfranogwyr wneud hynny. Dylai arolygwyr amlinellu diben, cyfnod amser a rheolau sylfaenol y cyfarfod. Bydd Estyn yn cadw'r hawl i reoli mynediad i'r cyfarfod. Rhaid i bob cyfranogwr barchu hawl pobl eraill i siarad yn rhydd a chael ei drin yn deg.
6. Dylai arolygwyr bwysleisio na chaniateir gwneud recordiadau sain na fideo o unrhyw gyfarfod neu unrhyw ran ohono gan y naill barti neu'r llall.
7. Dylai cyfranogwyr dawelu eu meicroffonau pan nad ydynt yn siarad i leihau sŵn cefndir.
8. Dylai cyfranogwyr ddiffodd eu camera trwy gydol y cyfarfod os ydynt yn gyfforddus i wneud hynny – gallai protocolau ac amgylchiadau fod yn wahanol mewn darparwyr unigol ac i gyfranogwyr unigol. Mae angen i'r cyfweiliadau hyn fod yn gynhwysol, felly dylai arolygwyr ystyried protocolau cyfarfodydd ar-lein y darparwr unigol.
9. Gofynnir i gyfranogwyr ddefnyddio'r 'swyddogaeth codi llaw' a mynd trwy gadeirydd y cyfarfod yn ystod cyfarfodydd, a pharchu hawl cyfranogwyr eraill i siarad heb aflonyddu. Os yw rhywun yn dangos ymddygiad amhriodol, efallai bydd angen i arolygwyr dawelu'r unigolyn a gofyn yn gwrtais iddo/iddi adael y cyfarfod. Caiff arolygwyr ofyn i'r unigolyn adael y cyfarfod, os oes angen.
10. Gofynnir i gyfranogwyr fod yn ymwybodol o ddefnydd priodol o'r swyddogaeth sylwadau neu sgwrsio. Ni ddylid ysgrifennu unrhyw sylwadau na barn yno – dylid ond ei defnyddio i nodi dolenni at wefannau perthnasol, ac ati – gyda chydsyniad cadeirydd y cyfarfod.

### **Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ar-lein gydag arweinwyr a staff**

1. Bydd y darparwr yn rhannu cyfeiriadau e-bost ar gyfer pob un o'r staff fel y gall arolygwyr wahodd unigolion i gyfarfodydd, neu gael deialog broffesiynol ar ôl arsylwadau.
2. Bydd egwyl o 15 munud, o leiaf, rhwng pob gweithgaredd arolygu ar-lein, ac ni ddylai cyfarfodydd nac arsylwadau fel arfer bara'n hirach na 45 munud.
3. Rhaid peidio â gwneud recordiadau sain na fideo o gyfweiliadau a chyfarfodydd. Gofynnir i gyfranogwyr fod yn ymwybodol o ddefnydd priodol o'r swyddogaeth sylwadau neu sgwrsio. Ni ddylid ysgrifennu unrhyw sylwadau na barnau yno – dylid ond defnyddio hyn i nodi dolenni at wefannau perthnasol, ac ati – gyda chydysniad cadeirydd y cyfarfod.
4. Fel arfer, bydd dau arolygydd mewn cyfweiliadau ar-lein – bydd un arolygydd yn cymryd yr awenau i ofyn cwestiynau a chadeirio'r cyfarfod, tra bydd yr arolygydd arall yn cofnodi nodiadau'r cyfarfod.
5. Fel arfer, dylid cyfyngu cyfarfodydd ar-lein i ddim mwy na 6 i 8 cyfranogwr (llai, os oes modd) i sicrhau bod pob cyfranogwr yn cael cyfle i gyfrannu. Mae'n ddefnyddiol gallu gweld pob un o'r cyfranogwyr ar y sgrin ar unwaith (a gofyn iddynt gadw eu camerâu ymlaen, os oes modd) i gefnogi trafodaeth bwrpasol.

### **Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid â dysgwyr (lle mae rhai dysgwyr ac/neu arolygwyr yn mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb, a rhai yn mynychu trwy gynhadledd fideo)**

1. Efallai y bydd adegau pan fydd angen cynnal cyfarfodydd hybrid. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn sesiwn 'gwrando ar ddysgwyr' lle mae grwpiau o ddysgwyr ar wahanol gampysau yn mynychu trwy gynhadledd fideo ac arolygwyr yn mynychu ar-lein. Yn y senario hon, rhagwelir y byddai gan grŵp bob campws un ddolen fideo yn unig. Yn ychwanegol, gallai dysgwyr fynychu'n unigol, ar-lein. I bob pwrpas, byddai angen i arolygwyr felly fod yn rheoli sawl cyfarfod corfforol – a chyfranogwyr ychwanegol ar-lein, o bosibl – tra'n mynychu ar-lein eu hunain. Bydd angen i'r mathau hyn o gyfarfodydd gael eu rheoli'n ofalus gan arolygwyr i sicrhau bod yr holl ddysgwyr / cyfranogwyr yn cael cyfle i gyfrannu os ydynt yn dymuno, bod cyfrinachedd dysgwyr / cyfranogwyr yn cael ei gynnal, a bod lles arweinwyr / cyfranogwyr (yn enwedig os oes pynciau sensitif yn cael eu trafod) yn cael ei ddiogelu.
2. Fel arfer, ni fyddai aelod(au) o staff y darparwr yn bresennol yn yr un ystafell, nac ar-lein, yn ystod y cyfarfodydd hyn. Mae hyn i helpu sicrhau bod dysgwyr / cyfranogwyr yn gallu siarad yn rhydd.
3. Cyn y cyfarfod, dylai'r arolygydd sicrhau bod ganddo/ganddi rif cyswllt ar gyfer aelod o staff, o bosibl yr enwebai, os bydd angen cysylltu ag ef yn ystod y cyfarfod.

4. Dylai'r arolygydd drefnu gyda'r enwebai ymlaen llaw bod aelod priodol o staff gerllaw a bod dysgwyr yn gwybod ble i fynd os bydd angen iddynt adael y cyfarfod am unrhyw reswm.
5. Ar ddechrau'r cyfarfod, dylai'r arolygydd atgoffa dysgwyr na ddylent wneud unrhyw recordiadau sain na fideo o'r sesiwn ac na fydd Estyn chwaith.
6. Dylai'r arolygydd gyflwyno'i hun, esbonio diben y cyfarfod, esbonio bod angen i gyfranogwyr gynnal cyfrinachedd yr hyn a ddywedir yn y cyfarfod, esbonio protocolau ar gyfer nodi bod cyfranogwr yn dymuno siarad (codi llaw ar gyfer y rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod corfforol neu'n rhithwir ar gyfer y rhai sy'n mynychu ar-lein) a sicrhau cyfranogwyr y bydd pawb yn cael cyfle i gyfrannu os ydynt yn dymuno.
7. Os bydd dysgwr yn dechrau gofidio ac yn dymuno gadael y cyfarfod, gofynnwch iddo fynd ar unwaith at yr aelod staff sydd ar gael mewn amgylchiadau o'r fath. Os yw dysgwr sy'n mynychu ar-lein yn dymuno gadael y cyfarfod, rhowch sicrwydd iddo a gofyn a hoffai ddiffodd ei gamera a'i feicroffon am ychydig ac ailymuno os yw'n dymuno gwneud hynny. Dylai'r arolygydd roi gwybod i'r enwebai ar unwaith os bydd dysgwr yn gadael y cyfarfod.
8. Os bydd dysgwyr yn ymddwyn yn amhriodol, ymatebwch fel y byddech yn ystod cyfarfod wyneb yn wyneb, trwy eu hatgoffa am y rheolau sylfaenol sydd eisoes wedi cael eu rhannu â phawb. Sicrhewch fod yr arolygydd yn rhoi gwybod i'r enwebai ar unwaith os bydd dysgwr yn gadael y cyfarfod.

#### **Arweiniad ar gyfer cyfranogwyr sy'n ymuno â chyfarfod ar-lein o'u cartrefi**

*Dylid rhannu'r arweiniad hwn gyda chyfranogwyr mewn cyfarfodydd mwy. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr sydd efallai'n anghyfarwydd â fideo gynadledda neu fynychu cyfarfodydd mawr ar-lein.*

Diolch am gytuno i gyfarfod â'n harolygwyr. Dylech fod wedi cael gwybodaeth am y cyfarfod hwn gan y darparwr a fyddai wedi cynnwys enw'r arolygydd sy'n cynnal y cyfarfod, dyddiad ac amser y cyfarfod a'r ddolen i fynychu'r cyfarfod. Os nad ydych wedi cael y wybodaeth hon, cysylltwch â'r darparwr cyn gynted ag y gallwch.

#### Cyn y cyfarfod

- Ceisiwch sicrhau eich bod yn eistedd yn gyfforddus mewn ystafell wedi'i goleuo'n dda heb unrhyw synau i darfu arnoch chi.
- Os oes modd, eisteddwch yn rhywle sydd â chefnidir plaen, neu defnyddiwch y nodwedd cefndir niwlog. Mae hyn yn helpu osgoi tarfu ar bobl eraill yn y cyfarfod ac yn cadw amgylchedd eich cartref yn breifat.

### Pan fyddwch yn ymuno â'r cyfarfod

- Byddwch chi fel arfer yn mynd trwodd i'r 'lobi', fel mater o drefn. Bydd arolygwyr yn gadael pobl i mewn i'r cyfarfod cyn iddo ddechrau, felly peidiwch â phoeni os na chewch eich gadael i mewn ar unwaith.

### Yn ystod y cyfarfod

- **Peidiwch** â gwneud recordiad sain na fideo o'r cyfarfod. Caiff yr holl wybodaeth ei thrafod yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhannu y tu allan i'r cyfarfod. Dylech barchu cyfrinachedd pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.
- Bydd arolygydd yn cadeirio'r cyfarfod. Bydd yn cyflwyno'i hun ac yn esbonio fformat y cyfarfod.
- Tawelwch eich meicroffon oni bai eich bod yn siarad. Mae hyn yn helpu lleihau sŵn cefndir i bawb yn y cyfarfod.
- Defnyddiwch y swyddogaeth 'codi llaw' i ofyn cwestiynau neu wneud sylw. Fel arall, gallwch chi ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio i ofyn cwestiwn. Bydd yr arolygydd sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cadw golwg ar y sgwrs a bydd yn eich gwahodd i siarad ar yr adeg briodol. Peidiwch â defnyddio'r swyddogaeth sgwrsio ar gyfer gwneud sylwadau neu roi barn.
- Dylech barchu hawl pobl eraill i siarad yn rhydd a chael eu trin yn deg.
- Mae arolygwyr yn cadw'r hawl i dawelu cyfranogwyr nad ydynt yn dilyn y rheolau sylfaenol hyn, neu'u troi allan o'r cyfarfod.

### Trefniadau ar gyfer craffu ar waith dysgwyr

1. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer gweld gwaith ar-lein dysgwyr gyda'r darparwr.
2. Pan fydd modd, bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr yn uniongyrchol am eu gwaith ac yn gofyn iddynt ddangos eu gwaith, er enghraifft edrych ar waith ar ddyfeisiau dysgwyr neu ar gyfrifiaduron yn yr ystafell ddosbarth, y llyfrgell neu'r ardal adnoddau dysgu.
3. Gallai arolygwyr ofyn i staff ac arweinwyr ddangos enghreifftiau o waith dysgwyr a thrafod y rhesymeg a'r dull ar gyfer arferion addysgu, dysgu ac asesu ar-lein, cyfunol neu hybrid.

### Geirfa

Mae darparwyr ar draws y sector ôl-16 yn priodoli geiriau ac ymadroddion yn gysylltiedig â dysgu ar-lein ag iddynt wahanol ystyron mewn gwahanol gyd-destunau. Er mwyn eglurder, mae'r geiriau a'r ymadroddion a restrir yn yr eirfa hon yn cyfeirio at y diffiniad o'r geiriau a'r ymadroddion y mae Estyn wedi'u defnyddio yng nghyd-destun y ddogfen hon.

Anghydamserol – dysgu nad yw'n digwydd ar yr un pryd ar gyfer carfan gyfan. Gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau a chyfathrebu ar unrhyw adeg, ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i gael mynediad at y dysgu hwn ar unrhyw amser penodol

Dysgu cyfunol – addysgu a dysgu sy'n digwydd gan ddefnyddio cyfuniad o addysgu a dysgu o bell a wyneb yn wyneb ar y safle ar wahanol adegau

Wyneb yn wyneb – addysgu a dysgu sy'n digwydd mewn lleoliad darparwr

Cyflwyno hybrid – mae'n digwydd trwy ddefnyddio cyfuniad o gyflwyno o bell a wyneb yn wyneb ar y safle ar yr un pryd

Ar-lein – caiff yr holl weithgarwch addysgu a dysgu ei gyflwyno a'i gynnal gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Ar y safle – addysgu a dysgu sy'n digwydd mewn lleoliad darparwr ac mae dysgwyr yn mynychu wyneb yn wyneb

Cyflwyno o bell – addysgu a dysgu sy'n digwydd yn gyfan gwbl o bell gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Cydamserol – lle mae'r athro a'r dysgwyr i gyd yn ymgysylltu â deunydd mewn amser real, ar yr un pryd, ond nid o reidrwydd yn yr un lle (er enghraifft, gallai rhai dysgwyr gymryd rhan ar y safle tra bydd dysgwyr eraill efallai'n cymryd rhan o bell, y naill a'r llall ar yr un pryd)